# Cyngor Tref Hwlffordd

# Bwydo’r gymuned

Un Llais Cymru

One Voice Wales

## Cip cyflym

**Mae menter “Bwydo’r Gymuned”, sy’n cael ei ariannu gan Gyngor Tref Hwlffordd, yn cynnig mwy na lle twym yn ystod y gaeaf. Trwy ddarparu prydau twym, hanfodion, a gwasanaethau.**

**Mae Bwydo’r Gymuned yn lleddfu’r Argyfwng Costau Byw ac yn cysylltu pobl gyda chymorth hirdymor. Trwy bartneriaethau cryf gyda chynghorau, elusennau, a darparwyr gofal iechyd, mae’n cynnig canolfan un-alwad ar gyfer help a chyngor ymarferol.**




## Yr Her:



Gan eu bod wedi cael eu heffeithio gan yr Argyfwng Costau Byw, mae llawer o aelwydydd yn ei chael yn anodd fforddio hanfodion fel bwyd, gwres, dillad, a gwasanaethau hanfodol. Mae prisiau ynni’n codi, prisiau bwyd yn cynyddu, a phwysau ariannol wedi rhoi cryn straen ar deuluoedd, pensiynwyr, ac unigolion bregus, sy’n golygu eu bod yn aml yn gorfod gwneud dewisiadau anodd rhwng hanfodion dyddiol.

**Mae’r heriau hyn wedi creu angen brys am gymorth ymarferol, hygyrch — ac arweiniodd hynny at ddatblygu menter “Bwydo’r Gymuned”, sef ymateb holistaidd i ddarparu cymorth parod a chysylltu pobl â chymorth mwy hirdymor.**

## Beth sydd ar gael?

Lle twym, prydau bwyd maethlon sy’n cefnogi pobl o bob oed, o ddisgyblion ysgol i bensiynwyr.

Gall pobl gael gwasanaethau cyngor a chefnogaeth mewn lleoliad anffurfiol “un alwad”.

Banc Bwyd Anifeiliaid Anwes

Mae’r Tesco lleol yn cefnogi trwy roi “cynhyrchion bwyd sylfaenol” i fynd â nhw gartref.

Mae eglwys leol yn trefnu rheilen dillad ail law er mwyn i bobl sy’n galw heibio allu prynu dillad o ansawdd am brisiau cynaliadwy.

Mae Specsavers yn bresennol i gynnig cyngor ar ofal llygaid a gwasanaeth trwsio sbectolau rhad ac am ddim.

Mae torrwyr gwallt lleol yn cynnig torri gwallt am ddim.








### Ffeithiau’r Cyngor EFFAITH:

Mae £170 y sesiwn yn talu am gost llogi ystafell a darparu bwyd.

Mae tua 60 o bobl yn dod i bob sesiwn.


Mae’r Cyngor Tref wedi cyfrannu £850 o’r praesept

## Cynnig Hwb Twym

Mae Cyngor Tref Hwlffordd wedi partneru gyda chwmni arlwyo lleol sy'n rhoi ei amser yn hael iawn i ddarparu prydau twym yn yr hwb twym. Trwy ddefnyddio cynhwysion lleol, mae'r cwmni hefyd yn paratoi prydau maethlon "twymo gartref" y gall pobl fynd â nhw gartref, sy'n golygu fod y gefnogaeth yn parhau wedi'r digwyddiad ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd a llesiant y gymuned.



## Dysgwch fwy yma; gwyliwch ein hymweliad â Hwlffordd :




"rhywbeth sydd wedi bod ei angen yn y dref ers peth amser..... dyw pobl ddim bob tro'n gwybod sut i fynd ati i gael gwasanaethau cymunedol"

## Cyllid & Grymoedd

Mae pob cyngor cymuned yng Nghymru yn gorfod cael grymoedd cyfreithiol penodol sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth amrywiol i'w cymunedau lleol. Mae'r grymoedd hyn, a roddir iddynt trwy ddeddfwriaeth, yn galluogi cynghorau i drefnu gweithgareddau a mentrau o bob math i wella llesiant ac ansawdd bywyd pobl leol. Gall grymoedd a chyfiawnhadau amrywio, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw.
Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru gweinydd@unllaiscymru.cymru

## Y Dyfodol

Gan adeiladu ar lwyddiant Bwydo'r Gymuned, mae'r fenter yn symud ymlaen gydag enw newydd — Cysylltu'r Gymuned. Gyda chwe mis o nawdd gan Specsavers, bydd y cyngor yn cryfhau partneriaethau lleol ac yn ehangu'r ystod o gefnogaeth sydd ar gael.

Byddwn hefyd yn gwneud cais am grant Hwb Twym er mwyn cynnig mwy o wasanaethau i bobl leol..

Trwy sicrhau bod y gymuned yn dal i arwain y prosiect, mae'r cyngor yn anelu at ddarparu cefnogaeth yn y fan a'r lle ond hefyd atebion parhaol sy'n hyrwyddo gwytnwch, cynhwysiant, a llesiant ar draws y gymuned



**Eisiau gwybod mwy?**

**Am ragor o wybodaeth ar brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales https://bit.ly/3KYHftK Un Llais Cymru